



## Yn ysu am eich gweld!



Dyma'r piler fu unwaith yn cludo rheilffordd Davies Llandinam ar draws Afon Taf rhwng Ffynnon Taf a'r Garth Isaf, ger "Yr Ynys". Yn gymharol ddiweddar, llwyddodd rhywun i osod arwydd "Cofiwch Dryweryn" arno. Gan gofio'r lleoliad, awgrymwn newid bach ar yr arwydd hwnnw, dros dro, o leiaf!

### Blwyddyn ben i waered



Proffwyd neu brentis o beintiwr arwyddion? Dyma fel mae pethau ar un o strydoedd y ddinas! Diolch i Rhys Powys am anfon y llun. Os ydych chi'n tynnu llun ar eich ffôn, ac am ei rannu, anfonwch un at Ifan – tycnau@aol.com.

- Casgliad o gyfraniadau
- Ystôr bach o storïau.
  - Diddanwch
  - Myfyrdodau ac atgofion
  - Colofn farddol
  - Hen a Newydd

Diolch i chi am ymateb!

### “Amser i bob peth ...”



Faint o weithiau y'ni 'di dweud “Jiw!, ma' amser yn hedfan”, neu “i ble'r aeth yr amser?”, “sdim amser i wneud dim” a “sdim digon o oriau mewn dydd!” Wel, alla'i ddim dychmygu y byddwn ni'n dweud yr un o'r rheini am

sbel! Ond, tybed, tybed nad oes yng nghanol y dyddiau rhyfedd yma – gyfle. Cyfle i werthfawrogi amser, cyfle i arafu, i dawelu ac i, ie, i fwynhau'r llonyddwch. Nawr, dwi'n gwybod yn dda bod 'na rai yn ein plith sy' ynghlwm wrth y Gwasanaeth Iechyd yn gweddio i'r amser yma fynd heibio cyn gloied a phosib, a dwi'n siŵr ein bod ni fel cynulleidfa'n dymuno nerth a bendith iddyn nhw wrth eu gwaith, a “iechyd da”; yng ngwir ystyr y cyfarchiad, hyd oni welwn ni ddiwedd Cofid 19. Ond, i'r rhai ohonom ni sy'n ynysu, gwerthfawrogn yr eiliadau/munudau/oriau tawel, efallai gawn ni gyfle i glywed neu i weld prydfertwch rhywbeth, neu rywun, o'r newydd. “Daw heddiw fyth yn ôl” medd Endaf Emlyn yn un o'i ganeuon, gwnawn y gorau felly o bob heddiw, nes daw yfory gwel.

Cadwch yn ddiogel,

**Delwyn.**

Gair gan R. Alun Ifans

## DIACONIAID

Tri chof am ddiagoniaid yr Hen Gapel Llanbrynmair - dynion bob un, a hen ddyinion ar hynny.

Eu harfer oedd gwisgo hetiau caled (*bowler hats*) ar ddydd Sul a'u gosod ar risiau'r pulpud, un ar bob gris. Un Sul y pregethwr oedd Ifan Rowlands, Dolgellau; y pregethwr dall. Cododd Ifan o'r set fawr a chael ei dywys at risiau'r pulpud. Yn oedd yn ddydd corffol a thrwm ei gerddediad. Gafaelodd yng nghanllaw'r pulpud a chychwyn i fyny. Welais i erioed ddiagoniaid yn symud mor sydyn, wedi i Ifan roi ei droed drom am ben yr het gyntaf ac felly'r un oedd ar yr ail ris. Rhuthrodd tri diacon arall i symud eu hetiau. Rhy hwyr! Roedd Ifan fel *steam roller* wedi sicrhau mai oedfa fflat oedd honno i'r diaconiaid.

Dau atgof byr arall – un o'r diaconiaid oedd John Rees Dol-lydan (lle ganed Mynyddog, awdur geiriau 'Sosban Fach'). Ar ei liniau mewn Cwrdd Gweddi byddai'r hen frawd annwyl yn fuan iawn yn ei ddagrau gan mor angerddol oedd ei weddi. Ond i ni'r plant y gamp oedd cyfrif sawl gwaith y byddai'n dweud "O Aaaaaarglwydd ..." tra'n gweddio.

Richard Morgan oedd y llall a ddaw i'r cof. Teiliwr wrth ei alwedigaeth; prin yn bum troedfedd o ran taldra ond yn dipyn o hen ben. Paul oedd ei arwr. Ar ei liniau byddai yntau yn ail adrodd hanner ei frawddeg neu hyd yn oed hanner gair yn ddi-feth "Diolch i ti O Arglwydd mawr awr am dy ryfedd wyrthiau iau-iau a'th gariad rhyfeddol ol-ol tuag atom atom-atom ..." Coffa da am y diaconiaid.

Gair gan Marian Ifans

## Cymanfaoedd plentyndod

Fel mae'r Pasg yn dynesu, mae cof rhai ohonom yn troi at Y Gymanfa.

Penwythnos prysur oedd Y Pasg i lawer, ond nid ein Cymanfa ni mewn rhan o Ddyffryn Nantlle. Roedd gan Benygroes (a Llanllyfni?) eu cymanfa nhw, a'n cymanfa ni yn cynnwys capel Nantlle (Baladeulyn), Capel Mawr (John Jones) Talysarn, capel arall yn Nhalysarn o'r enw Hyfrydle a chapel bach yn Nhan'rallt. Tua mis Mai oedd ein cymanfaoedd ni'n cael eu cynnal, a hynny yn Capel Mawr!

Cymanfa b'nawn a nos oedd ganddon ni, ond roedd hi'n hanner Steddfod a hanner dweud Rhodd Mam, heblaw am ganu emynau plant, a ymddangosai yn y llyfryn blynyddol, a'u dysgu yn y "Band of Hope" yn ystod y Gaeaf.

Cymaint oedd yn cystadlu, fel bod rhagbrofion yn dechrau am tua 12, a'r tri gorau yn cael mynd i'r llwyfan! A chael gwobr ariannol. Yna cael te yn y festri – gwledd, a'r festri'n orlawn – ond siom i blant Talysarn – rhaid iddyn nhw fynd adref – ni oedd y "visitors".

Allan i chwarae wedyn – byddai hwnnw fel cael mynd allan i chwarae yn ein dillad dydd Sul – rhywbeth na chaem wneud fel arfer. A sôn am ddiillad – ffrog newydd efallai?

Cymanfa'r nos a'r cantorion yn mynd i'r galeri. Roeddwn i'n cael mynd i'r galeri i ganu Alto efo Anti Katie, oedd a llais fel

organ, ac yn dod i fyny o Gaernarfon yn unswydd i'w morio hi!

Ond ar ôl y Gymanfa roedden ni'n cael profi un o uchafbwyntiau'r flwyddyn – cael mynd i'r caffï yn Nhalysarn i gael chips a Vimto, cyn dal y bws 9!

Byddai hir siarad yn y chwarel y diwrnod wedyn – a oedd yr arweinydd yn llusgo ar rai o'r emynau, a thrafod rhwng gwragedd y pentref am yr hetiau newydd!!!

Gair gan Allan Pickard

## Y Dull Syml

Unwaith erioed fues i yng ngŵyl Gristnogol Greenbelt, a hynny rhyw ddeng mlynedd yn ôl. Roedd yn brofiad arbennig iawn ac roeddwn yn llawn bwriadu dychwelyd. Ond fel gyda llawer bwriad, nis gwirededwyd!

Ymhlith y llu siaradwyr greodd argraff fawr arnaf roedd



Shane Claibourne, ymgyrchydd, awdur ac un o gyd-sylfaenwyr mudiad o'r enw *The Simple Way* yn Philadelphia, Pennsylvania, sy'n gweithio ymhlith y digartref <https://www.thesimpleway.org> Mae'n un o

aelodau amlwg y mudiad mynachaid newydd [https://en.wikipedia.org/wiki/New\\_Monasticism](https://en.wikipedia.org/wiki/New_Monasticism)

Rwyf wedi bod yn ei ddilyn ar Trydar ers peth amser, ac mae ei sylwadau'n gymorth mawr i mi ac yn atgyfnerthu fy safbwynt a'm daliadau ar bynciau pwysig ein cyfnod.

Ar y Sul cyntaf pan oedd ein hadeiladau crefyddol wedi cau ar draws ein gwlad daeth hyn oddi wrtho.

- *It's a good time to remember what the Church really is:*
- *not a building, that's just where we gather.*
- *not a meeting, that's just how we worship.*
- *The Church is the Body of Christ.*
- *An organism, not an organization.*
- *A people, not a place.*
- *Not something we go to but something we are.*

Gair gan Wynford Ellis Owen

## Cuddio'r gwir

Roedd Mr Huws y gweinidog yn poeni'n arw am Miss Jones, doedd hi ddim wedi bod yn y capel ers talwm. Fe aeth draw i'w gweld hi.

"Miss Jones," medda fo, "dach chi ddim wedi bod yn y capel ers talwm. Pam hynny?"

"Ar y gôt ma'r bai 'dach chi'n gweld, Mr Huws bach."

"Y gôt?" medda'r gweinidog yn syn.

"Ia, tydi hi ddim ffit i neb 'i gweld."

"Twt lol!" medda'r gweinidog, "Tydi Duw ddim yn poeni am be sydd ar y tu allan, Miss Jones. Poeni am be sydd ar y tu fewn mae o."

"Wel, dyna'r problem 'dach chi'n gweld, Mr Huws bach," meddai. "Y leining sy' 'di mynd!"

Y WERS?

Ar y tu mewn mae'n poen ninnau hefyd onid e? Y drafferth ydi ein bod ni'n cuddio'r boen rhag y byd.

Does dim byd sy'n waeth na thrio ymddangos yn o-cê pan nad ydan ni'n teimlo'n o-cê.

Heddiw, beth am rannu eich poen gydag un person arall. Mentrwch. Cymrwch risg. Byddwch yn teimlo gymaint yn well o wneud hynny.

## WRTH Y DRWS

'Chips gefaist ti i frecwast?'. Dyna'r peth cynta' ddaeth i'm meddwl wrth weld un o selogion Bethlehem yn cyrraedd drws y capel am 10.32 y bore a'i wynt yn ei ddwrn. Fel '*ceidwad y drws*' ar fore Sul ym Methlehem ers talwm, d'oedd dim byd newydd mewn gweld y cymwynaswr mawr hwn yn cyrraedd fel roedd y gwasanaeth ar fin dechrau. Ond peth newydd oedd ei weld â thudalennau o'r 'News of the World' wedi sgrwnshio yn ei law.

'Be' ti'n feddwl chips?' medda fo. 'Wel, dy weld ti'n cario'r holl bapurau newydd 'ma nes i' atebais innau. Yr adeg honno roedd sglodion yn dŵad wedi'i lapio mewn papur newydd, wrth gwrs.

'Chwilio am fin sbwriel dwi ... a be di'r drewdod 'ma?' meddai'r aelod, yn edrych yn amheus arna i'n llenwi drws y capel.

Yn ôl ei arfer, roedd Eurwyn Evans, Trysorydd ffyddlon Bethlehem ar y pryd, wedi cyrraedd y capel o flaen pawb arall ac wedi sylwi fod rhyw gi wedi baeddu'r pafin oedd yn arwain o'r maes parcio. Mwy na hynny, bod rhywun anffodus wedi'i gario a'i draed. Roedd Eurwyn yn wêr bonheddig, un o natur dawel a pharchus, bob amser yn ceisio'i orau i gadw'r ddysgl yn wastad. O weld y budreddi, ac o wybod fod nifer go lew o aelodau ar fin cyrraedd i'r cwrdd, curodd ar ddrws un o dai'r Villas i ofyn oedd ganddyn nhw bapur newydd.

Yna, fe osododd dudalen o'r News of the World yn daclus dros bob cam o'r baw ci. Gan ei fod yn ei siwt, ac mi roedd Eurwyn yn foi trwsiadus iawn, penderfynodd mai gwell iddo fyddai cuddio'r baw yn hytrach na'i godi.

Pan gyrhaeddodd yr aelodau eraill yn eu tro, gan fy nghynnwys i, camodd pawb heibio'r papurau newydd oedd yn amlwg ar y llwybr. Pawb, hynny yw, ond yr aelod cymwynasgar oedd ymhlith yr olaf i gyrraedd.

Pan welodd o dudalennau'r News of the World yn anharddu'r llwybr at ein capel cymrodd fod y bachgen dosbarthu papur newydd wedi eu gollwng. Ac yntau ar frys garw i gyrraedd cyn diwedd yr emyn cyntaf, penderfynodd eu casglu wrth iddo fynd heibio, gyda'r bwriad o'i rhoi yn y bin sbwriel. Heb ddeall, wrth gwrs, y rheswm dros iddyn nhw fod yno'n y lle cyntaf.

Dyna ddau gymwynaswr oedd, yn eu ffordd eu hunain, yn amlwg yn meddwl am eraill.

A thestun y bregeth fore honno? Hwn falle? '*Peidiwch â'u hofni hwy. Oherwydd nid oes dim wedi ei guddio na ddatguddir, na dim yn guddiedig na cheir ei wybod*'. Matthew 10:26. Wel, dyna beth ddyle'r testun fod wedi bod beth bynnag!

**Y boi wrth y drws**



*Yn wir, trwy gyd-ddigwyddiad, daeth copi o'r llun ar y chwith i law yr un pryd â derbyn y stori uchod! Dyma'r union leoliad – drwy lygaid arlunydd Arthur Miles, oedd yn byw yn y pentref, Arthur Miles (1905 – 1988). Ond nid bwriad yr artist oedd creu llun ar gyfer yr hanesyn uchod. Fe gyflwynodd 35 copi o'r llun - "Finals" - i'w gwerthu er budd codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 1978.*

## Stori braidd yn fflat o'r Ynys

Wrth orfod cael dau deiar newydd yn y garej ger y capel ar y pwnn Gwener jyst cyn yr ynysu mawr, daeth un o ddarlithoedd poblogaidd y Parchedig John Evans\*, ein Gweinidog ym Mhenuel, Llanddona, i'r cof. Yn ei atgofion am rai o gymeriadau pulpudau Ynys Môn roedd ganddo hanes gyrrwr salaf y Presbyteriaid yr adeg honno, sef William Davies, Cemlyn. Tu ôl i lyw ei Ostin Sefn, ni pharchai'r drefn arferol o gadw i'r ochr chwith ac, ar ddiwedd oedfa, gofynnai i aelod o'r gynulleidfa droi ei gar rownd er mwyn iddo allu gyrru tuag adref. (Mae pennod yng nghyfrrol Emlyn Richards am 'Bregethwyr Môn' yn dyfynnu hanes am William Davies "wrth drofa go dywyll, yn stopio'r car a cherdded rownd y tro i gael golwg a oedd rhywun yn dod i'w gyfarfod, yna rhedeg yn ôl a'i sbardyddu hi rownd y tro!")


Ond yn ôl at stori'r Parchedig John Evans amdano. Williams Davies wedi gyrru, mewn anwybodaeth, ar bedwar olwyn cwbl fflat a difetha'r tiwbiau a'r teiers yn llwyr.

"Wedi ca'l pynctiar, Mr Defis?" holodd rhywun yn y garej leol.

Ochneidiodd y gweinidog ac ateb: "Wyth bynctiar ar hugain!"



Fel pawb ohonon ni, mae'r Garth yn gallu newid o awr i awr. O aur y machlud i'r caddug du.  
**Ond beth am Fethlehem?**  
Cymharwch y ddau lun isod. Pa newidiadau allwch chi weld? Mae'r un ar y chwith yn dyddio nôl i wythdegau'r ganrif ddiwethaf. A'r llall? Nadolig 2019.



Gair gan Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd

## Banc Bwyd Caerdydd

'Rydym wedi bod yn gyson ein cefnogaeth i Fanc Bwyd Caerdydd ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'r fenter yn gwerthfawrogi'r cymorth ymarferol yr ydym yn ei ddarparu ar Sul cyntaf pob mis trwy gasglu bwydydd iddynt ei ddsbarthu i'r teuluoedd rheini sydd mewn angen.

Mae'r sefyllfa dipyn yn fwy dyrus ar hyn o bryd, a chan na fyddwn yn debygol o gynnal oedfaon yn y capel am sawl wythnos eto, bydd y llif o ddarpariaeth o Fethlehem, Gwaelod-y-garth, yn dirwyn i ben dros dro.

Tybed felly a fydech yn ystyried rhoi cyfraniad ariannol i Fanc Bwyd Caerdydd er sicrhau eu bod yn parhau i allu gwasanaethu'r anghenus, a fydd siŵr o fod yn fwy niferus o gryn dipyn yn sgil y gwaharddiadau sydd wedi eu cyflwyno yn ddiweddar.

Gellir gwneud hynny trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y safle we yma:-

<https://localgiving.org/donation/cardifffoodbank>

Noder:

- Gall £5 fod o gymorth i roi tanwydd yn y faniau sy'n trosglwyddo'r bwyd i'r canolfannau dosbarthu.
- Gall £10 fod o gymorth i gynnal dros 1000 o unigolion y mis sydd mewn angen
- Gall £20 fod o gymorth tuag at gostau'r warws sydd yn £1500 y mis.

### Cofion

- at Judith Evans, Pentyrch, sydd wedi bod yn yr ysbyty ar ôl cwmpo a thorri esgyrn yn eich choes a'i bysedd.

- ac at bawb arall sy'n ddi-hwyl ar hyn o bryd

# ODLAU'R GARTH

Y nodyn isod oddi wrth Rhys Powys fu'r ysgogiad i'r isod:

"Annwyl Ifan,

Beth am ddechre 'cornel farddol' yn y Bwletin? Fe ddechreua i gyda'g englyn ysgafn... gan roi her i feirdd eraill Bethlehem i gyfrannu cerddi o'u gwaith, neu ddewis hoff gerddi gyda'g eglurhad byr am y dewis. "

Drwy gyd-ddigwyddiad, roedd dyrnaid wedi dod i law – a dyma nhw. (Eich tro chi, tro nesaf!)

## Cwmwl

Cymylau fel camelod - un arall  
Fel eryr; mwncïod  
Maes o law... yna cawod.  
Yn y bôn, dy'n nhw'm yn bod.

*Rhys Powys*

## Ceffylau am Hanner Nos ...

*(Ar ôl Jack Gilbert)*

Ein calon sy'n crwydro yn y goedwig dywyll,  
ein breuddwyd sy'n stryffaglach  
yng nghastell amheuson.  
Ond ma' miwsig ynon ni.  
Er bod gobaith yn cael ei siwblachad,  
angel sy'n codi eto a mynd â ni.

Tra bod ni'n cysgu, fodfedd wrth fodfedd  
daw bore'r haf  
cyn ein hebrwng wedyn  
fel slashen â choesau hir  
ar hyd hewlydd mochedd.


Dyw hi ddim yn syndod,  
y perygl a'r diodde o'n cwmpas ni.  
Yr hyn sy'n syndod yw'r canu.

Gwyddwn fod y ceffyle yn y ddôl dywyll.  
Ni'n eu gwynto, clywn eu hanal.

Ond para ein hysbryd fel dyn yn bystachu  
trw ddyffryn rhewllyd  
cyn gwynto blode'n sydyn  
a sylweddoli  
bod yr eira'n dadleth  
o'r golwg ar y gopa,  
bod y gwanwyn wedi dechre.

*Martin Huws*

*[ Gyda llaw, fersiwn yw'r gerdd nid cyfieithiad. Dyma ddywed y Poetry Foundation am Gilbert:*



*Pan enillodd Jack Gilbert wobwr  
Beirdd Iau "Yale/Iâl" ym 1962 am  
'Views of Jeopardy', enillodd fath  
o fri sydd yn aml yn brin ym myd y  
beirdd. Gwelwyd ei lun yn Esquire,  
Vogue, a Glamour, ac roedd ei lyfr  
yn aml yn cael ei ladrata o'r  
llyfrgelloedd.]*

## Y Daith

Dyna le oedd yn y tŷ 'cw pa ddiwrnod  
R'oedd y wraig ar fin codi ei phac  
I fyned am ysbaid o wylia'  
Gan fod busnas yn syndod o slac.

Bu'n golchi ers dechra'r wythnos  
A smwddio ers prawn dydd Iau  
Gan osod pob peth yn ei ordor  
Ar lawr y llofft gefn fesul dau.

Dau ffrili, dau be da chi'n galw,  
Dwy goban, dau flowsyn bach twt,  
Dau drowsus a dwy sgertan ledar  
Dwy jympar, dwy het deunydd clwt.

Ac yna dyna lenwi'r bag 'molchi  
Â shampŵ a rhyw sebon sent  
A cholur a lliw i'w gruddiau  
Bron cymaint a bag mawr o sment.

Ni welwyd erioed y fath bacia  
Mae'n nhw'n llwythi ar lawr ar y clos,  
Dim ond i dŷ'i mham lawr y lon mae hi'n mynd  
A hynny yn unig dros nos.

*Rhodri-Gwynn Jones*

## Mewn Oedfa

Sut ma' disgwyl i rywun gofio'i adnod  
A hwn wrthi'n siarad o hyd?  
O'n i'n 'i gwybod hi'n iawn amser casglu  
Ond rŵan, fedra'i gofio dim byd.  
Tasa fo'n canmol lot llai rhwng pob plentyn  
A brolio llai fyth arno'i hun!  
Faint haws dwi o ddallt pa mor bwysig  
Ydi'r 'Gair' – fedra'i gofio dim un!  
Adnod Carys yn matsio efo'r pennill,  
'Y Gwynfydau' i gyd gan John Ritsh,  
Dwy linell a hanner sydd gen i  
A rŵan fedra i ddim cychwyn y bitsh.  
Ma'r papur gan mam – ma' hi'n meimio  
Fel pysgodyn mewn powlen o ddŵr.  
Twt dam! Ga'n nhw'r hen 'Fugail Israel'  
A ga' inna' chwip-din 'dwi'n reit siwr!

*Ifan Roberts*



## Y fro rhwng Metro a Mynydd!

Rhag ofn na chewch gyfle i grwydro'r ardal am sbel – dyma fel bu dechrau ar y gwaith o godi canolfan trin trenau ar gyfer system newydd deithio "Metro" Caerdydd a'r Cymoedd, ger gorsaf drenau Ffynnon Taf. Bydd fan hyn ar "ein patsh" ni yma ym Methlehem. Mae Mynydd y Garth i'w weld yn amlwg yn y cefndir! Gyda'r safle'n newid ei siâp yn ddyddiol, bydd yn ddiddorol gweld y datblygiad pan ddaw diwedd ar ein caethiwed!



Llun o Marian Ifans (Radur) a'r ferch, **Sara Gibson**, (Penrhyncoch) oedd y cyntaf i ymddangos ar wefan Cymru Fyw, tra'n sôn am Sul y Mamau lle roedd angen cadw ar wahân.

Cychwyn ar y gadwyn!

Daeth cadwyn o luniau wedi hynny – yn eu plith gyfarchion **Geraint Passmore** (Dubai) i'w fam, Ann, (Radur).



## Rhodri-Gwynn ddaeth o hyd i'r isod, yn rhifyn Chwefror 1987 o Tafod Elái. Mae'n amserol o hyd!

### "ARA" BACH"

Neges Blwyddyn Newydd gan y Parchedig T.J.Davies

Mynnwch amser i feddwl -  
 meddyliau yw pwerdy nerth.  
 Mynnwch amser i chwarae -  
 chwarae sy'n cadw rhywun yn ifanc.  
 Mynnwch amser i ddarllen -  
 mae darllen yn magu doethineb a deall.  
 Mynnwch amser i weddio -  
 gall gweddi fod yn 'graig yr oesoedd'  
 pan fo 'darnau'n cwmpo i lawr o hyd'.  
 Mynnwch amser i garu -  
 caru sy'n rhoi ystyr i fywyd.  
 Mynnwch amser i fod yn gyfeillgar -  
 mae cyfeillgarwch yn rhoi blas ar fyw.  
 Mynnwch amser i chwerrthin -  
 chwerrthin yn well na photelaid o ffisys  
 i'r corff ac yn fwisig i'r enaid.  
 Mynnwch amser i roi -  
 mae pob dydd yn rhy fyr a bywyd yn rhy gwa  
 i'w lenwi ag hunanlodeb.  
 Mynnwch amser i neud eich gwaith -  
 mae balchder at grefft, ynhyfrydu  
 mewn gwaith graenus, beth bynnag yw e;  
 bydd ei sglln yn gloywi eich urddas a'ch  
 hunan-barch.  
 Mynnwch amser i addoli -  
 'Ni wnaed yr enaid hwn erioed i garu llwch  
 y llawr'!

Anad.

(Addaswyd o'r Saesneg gan T.J.)

Gwaith yr un bardd/beirdd ag llefaru â phawb ohonon, a'i a wellir yn ein Llyfr Emynu. fod yn neges addas i'r Fe'i gwelais yng ngolygyddol flwyddyn newydd. "Yc hwn "Woman and Home", 'chydig sydd ganddo glustiau i cyn y Dollig. "Lle rhyfedd i wrando, gwrandawed". fawredd fod!" Cafaelodd ynof Ychwanegais un at y a themlais ei fod yn gwreiddiol. Pa un?

### Cofiwch droi'r cloc Nos Sadwrn!

A beth am gyfraniad i'r rhifyn nesaf – erbyn Ebrill 1af?

tycnau@aol.com